NICE National Institute for Health and Care Excellence

Pembrolizumab ar gyfer trin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin

03 Medi 2018

Mae Pembrolizumab ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser fel triniaeth bosibl ar gyfer lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin mewn oedolion:

- sydd wedi cael cyffur o'r enw brentuximab vedotin ac
- na all gael trawsblaniad bôn-gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain.

Gall y bobl hyn gael pembrolizumab am hyd at ddwy flynedd. Mae mwy o dystiolaeth ar pembrolizumab yn cael ei chasglu hyd at fis Gorffennaf 2022. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddaru'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Nid yw Pembrolizumab ar gael fel arfer i drin lymffoma Hodgkin clasurol atglafychol neu anhydrin mewn oedolion sydd eisoes wedi cael brentuximab vedotin a thrawsblaniad bôn-gelloedd gan ddefnyddio eu celloedd eu hunain. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill. Os ydych eisoes yn cymryd pembrolizumab, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555
- GOFAL Lewcemia, 08088 010 444
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3082-1

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights